## ATODLEN 3

Rheoliad 12(1)

### YR WYBODAETH SY'N OFYNNOL MEWN PERTHYNAS Â NYRSYS SYDD I'W CYFLENWI GAN ASIANTAETH

**1.** Enw, cyfeiriad, dyddiad geni a Rhif ffôn.

**2.** Enw, cyfeiriad a Rhif ffôn y perthynas agosaf.

**3.** Prawf o bwy yw'r person, gan gynnwys ffotograff diweddar.

**4.** Naill ai —

(a) os yw'r swydd y mae'r nyrs yn cael ei chyflenwi i'w chyflawni yn dod o dan adran 115(3) neu (4) o Ddeddf yr Heddlu 1997, tystysgrif cofnod troseddol fanwl a ddyroddwyd o dan adran 115 o'r Ddeddf honno; neu

(b) mewn unrhyw achos arall, tystysgrif cofnod troseddol a ddyroddwyd o dan adran 113 o'r Ddeddf honno,

gan gynnwys, os yw'n gymwys, y materion a bennir yn adrannau 113(3A) a 115(6A) o'r Ddeddf honno a'r darpariaethau canlynol pan fyddant mewn grym, sef adran 113(3C)(a) a (b) ac adran 115(6B)(a) a (b) o'r Ddeddf hono.

**5.** Gwiriad heddlu, sef adroddiad a luniwyd gan neu ar ran prif swyddog heddlu o fewn ystyr "chief officer" yn Neddf yr Heddlu 1997 ac sy'n cofnodi, adeg llunio'r adroddiad, bob tramgwydd troseddol —

(a) y caniateir eu ddatgelu yn rhinwedd Gorchymyn Deddf Adsefydlu Tramgwyddwyr 1974 (Eithriadau) 1975(**1**); neu

(b) yr oedd y person wedi'i rybuddio amdanynt ac wedi'u cyfaddef adeg cael y rhybudd.

**6.** Dau dystlythyr oddi wrth nyrsys neu broffesiynolion iechyd eraill, gan gynnwys tystlythyr sy'n ymwneud â'r cyfnod cyflogaeth diwethaf fel nyrs nad oedd wedi para'n llai na thri mis.

**7.** Os yw'r nyrs wedi gweithio o'r blaen mewn swydd a oedd yn golygu gweithio gyda phlant neu oedolion hawdd eu niweidio, cadarnhad o'r rheswm pam y rhoes y gorau i weithio yn y swydd honno, ac eithrio os nad yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi penderfynu bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i sicrhau cadarnhad o'r fath ond nad yw ar gael.

**8.** Tystiolaeth bod y nyrs yn medru Saesneg i raddau boddhaol, os oedd cymwysterau nyrsio'r nyrs wedi'u sicrhau y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

**9.** Tystiolaeth ddogfennol am unrhyw gymwysterau a hyfforddiant perthnasol.

**10.** Hanes cyflogaeth llawn, ynghyd ag esboniad ysgrifenedig boddhaol am unrhyw fylchau yn y gyflogaeth a manylion unrhyw gyflogaeth gyfredol ac eithrio at ddibenion yr asiantaeth.

**11.** Cofnod o statws imwneiddio.

**12.** Cadarnhad o'i chofrestriad cyfredol â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, gan gynnwys manylion am y Rhan o'r gofrestr y mae'r nyrs wedi'i chofrestru ynddi.

**13.** Manylion unrhyw yswiriant indemnio proffesiynol.

---

(**1**) O.S. 1975/1023. Mae diwygiadau perthnasol wedi'u gwneud gan O.S. 1986/1249, 1986/2268, 2001/1192 a 2002/441.